Y Comisiwn Etholiadol

Cyflwyniad

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr sydd eisiau gwybod rhagor am refferenda.

Cynnwys:


Cyflwyniad i refferenda

Beth sy'n digwydd mewn refferenda

Cofrestru fel ymgyrchwr

Grwpiau ymgyrchu arweiniol

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Cyflwyniad i ymgyrchu'r Refferendwm

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Pobl a hoffai ymgyrchu mewn refferendwm.

## Mae'r ddogfen yn ymdrin a:

- Cyflwyniad i refferenda
- Beth sy'n digwydd pan gynhelir refferendwm
- Pwy sy'n gallu ymgyrchu mewn refferendwm
- Mynd yn ymgyrchwr cofrestredig
- Grwpiau ymgyrchu arweiniol

## Dogfenni cysylltiedig:

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Cyfarwyddyd sy'n benodol i refferenda
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y broses o ddynodi

## Ffurflenni ac esboniadau

- Ffurflen RC1PVS Cais i gofrestru fel ymgyrchydd – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

2

# Crynodeb

Mae cyfranogi gweithredol ymgyrchwyr yn hanfodol ynghylch llwyddiant refferendwm.

Os hoffech chi ymgyrchu, mae angen ichi wybod am y ffordd y trefnir refferenda a pha reolau mae rhaid ichi eu dilyn.

Bydd y cyflwyniad hwn yn rhoi'r pwyntiau allweddol ichi ynglŷn â refferenda gan ddweud wrthych chi ble y gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Mae refferendwm yn ddigwyddiad ble gofynnir i etholwyr bleidleisio ar destun neu gynnig neilltuol (ar ffurf cwestiwn).

Er enghraifft, yn 1975 cynorthwyodd refferendwm ar draws y DU i benderfynnu a ddylai'r DU aros fel aelod o'r Gymuned Ewropeaidd.

Mae dau fath o refferendwm:

- Refferenda o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (refferenda PPERA).
- Refferenda llywodraeth leol. Er enghraifft, a ddylid cael maer etholedig yn eich ardal.

Mae gwahanol gyfreithiau, reolau a rheoleiddiadau'n perthyn i'r mathau hyn o refferendwm. Rydyn ni'n rheoleiddio refferenda PPERA yn unig a mae'r canllawiau hyn yn perthyn iddyn nhw yn unig.

Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am refferenda llywodraeth leol, bydd angen ichi gysylltu â'ch awdurdod lleol.

Os ydych chi eisiau gwybod a yw refferendwm arfaethedig yn refferendwm PPERA, ffoniwch ni neu ymwelwch â'n safwe os gwelwch yn dda.

**Pwysig**

Dydy'r canllawiau hyn ddim yn perthyn i refferenda llywodraeth leol gan nad ydyn ni'n eu rheoleiddio.

4

# Beth sy'n digwydd pan gynhelir refferendwm?

Os yw refferendwm PPERA yn mynd i ddigwydd, bydd deddfwriaeth yn cael ei phasio sy'n cynnwys y cwestiwn awgrymedig a manylion ynglŷn â'r ffordd y bydd hi'n cael ei threfnu.

Cyn y cynhelir refferendwm, mae cyfnod ffurfiol o ymgyrchu a enwir 'cyfnod y refferendwm'. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rheolau ar ymgyrchu, gwario a chyllid yn perthyn.

Rydyn ni'n cyhoeddi amserlen sy'n dangos y dyddiadau a'r terfynau amser ar gyfer pob refferendwm. Ac, o ddiwrnod cyntaf cyfnod y refferendwm, rydyn ni'n cychwyn cofrestru ymgyrchwyr.

Bydd yr amserlen a gyhoeddir yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Pryd mae rheolau gwariant y refferendwm yn cychwyn.
- Beth ydy'r terfynau gwario.
- Y terfyn amser i wneud cais inni i gael eich enwi fel grŵp ymgyrchu arweiniol.
- Y terfyn amser mae rhaid i etholwyr gofrestru yn ei erbyn, gan gynnwys cofrestru am bleidleisiau post
- Y terfynau amser i ymgyrchwyr ddatgan inni ar ôl y refferendwm.

I gael rhagor o wybodaeth ar refferenda a sut maen nhw'n cael eu trefnu gweler:

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

Ar ôl i bleidlais y refferendwm gau, cyfrifir y pleidleisiau'n lleol. Nesaf cyfosodir y canlyniadau lleol a chyhoeddir y canlyniad cyfan.

## Beth yw ein cyfrifoldebau statudol?

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) mae cyfrifoldebau'r Comisiwn Etholiadol yn cynnwys:

- Sylwi ar eiriad cwestiwn y refferendwm.
- Cofrestru ymgyrchwr
- Rheoleiddio gwariant a rhoddion yr ymgyrch,
- Dynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol
- Gosod a gwenyddu'r grantiau i grwpiau ymgyrchu arweiniol
- Adrodd ar weinyddu'r refferendwm
- Cyfarwyddo'r refferendwm a sicrhau cywirdeb cyfan y canlyniad.

# Pwy sy'n gallu ymgyrchu mewn refferendwm?

Gall pawb wario hyd at £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm heb gofrestru gyda ni.

Os ydych chi eisiau gwario mwy na hyn, mae rhaid ichi gofrestru gyda ni i fynd yn 'ymgyrchwr cofrestredig'. Rydyn ni'n agor y cofrestrau ar ddechrau cyfnod y refferendwm.

Mae rhaid ichi ddweud wrthyn ni ba ochr o'r drafodaeth rydych chi'n ymgyrchu drosti.

Gallwch chi gofrestru gyda ni trwy ddefnyddio'r Ffurflen RC1PVS Cais i gofrestru fel ymgyrchydd – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011 ar ein safwe.

I gael rhagor o wybodaeth ar y rheolau ac arfer da ynghylch sut y gallwch chi ymgyrchu, gweler ein Y pethau 'i'w gwneud' ac i 'beidio â'u gwneud' yn ystod ymgyrch refferendwm. Mae'r rheolau hyn yn perthyn os oes angen ichi gofrestru gyda ni neu beidio.

Mae cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellir ei dosbarthu gan gyrff cyhoeddus yn ystod refferendwm. Gweler:

- Papur arbenigol: Cyrff cyhoeddus a deunydd refferendwm

## Pwy sy'n gallu cofrestru fel ymgyrchwr?

Dim ond y mathau dilynol o unigolion neu gyrff sy'n gallu cofrestru fel ymgyrchwyr:

- Unigolyn sy'n byw yn y DU neu sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr yn y DU.
- Plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cwmni sy'n gofrestredig yn y DU a sy'n ymgorfforedig yn yr UE a sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Undeb Llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU.
- Cymdeithas Adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU. sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas Iesiant, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig sy'n seliedig yn y DU a sy'n cynnal rhan fwyaf ei busnes neu ei weithgareddau eraill yn y DU.

**Pwysig**

Hyd yn oed os ydych chi wedi cofrestru gyda ni eisoes fel plaid gwleidyddol neu fel trydydd parti, mae angen ichi gofrestru fel ymgyrchwr ar gyfer pob refferendwm.

6

# Mynd yn ymgyrchwr cofrestredig

Mae cofrestru fel ymgyrchwr yn rhoi ichi

- Terfyn gwariant sy'n uwch na £10,000
- Mynediad i'r gofrestr etholwyr i helpu'ch ymgyrch
- Yr hawl i gynrychiolwyr fynychu sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau.

## Ariannu a gwario yn y refferendwm

Mae rhaid ichi fel ymgyrchwr cofrestredig gydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau o dan PPERA. Mae'r rhain yn ymdrin â'r rhan fwyaf o weithredu'r ymgyrch.

Mae rhaid ichi gofrestru rhywun i fod yn 'berson cyfrifol'. Bydd y person hwn yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolau hyn yn cael eu dilyn.

Hefyd mae rhaid ichi ddatgan rhoddion, benthyciadau a gwariant eich ymgyrch inni ar ôl y refferendwm.

Mae 'benthyciadau' yn cynnwys gwarantau, gwarannau, a chyleusterau credyd megis gorddrafftiau a chardiau credyd.

Dyma'r rheolau ynghylch pwy yn eich ymgyrch sy'n gallu awdurdodi gwariant.

### Pleidiau gwleidyddol

Os ydych chi'n blaid wleidyddol, eich trysorydd cofrestredig fydd eich 'person cyfrifol'.

Mae rhaid ichi barhau i ddatgan rhoddion a benthyciadau pob chwarter fel sy'n arferol. Mae rhaid ichi cyflwyno cofnod gwariant ar ôl y refferendwm, ond does dim angen ichi gyflwyno unrhyw gofnodion ychwnegol am roddion na fenthyciadau.

Allwch chi ddim gwneud rhoddion na fenthyciadau i ymgyrchwyr cofrestredig eraill, heblaw am grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

# Grwpiau ymgyrchu arweiniol

Unwaith eich bod wedi cofrestru, gallwch chi wneud cais inni i fynd yn grŵp ymgyrchu arweiniol (a elwir yn 'gorff ddynodedig' yn PPERA) ar gyfer un ochr o'r drafodaeth.

Y buddion ar gyfer grwpiau ymgyrchu arweiniol yw:

- Terfyn gwariant sy'n uwch nag ymgyrchwyr cofredtredig eraill
- Y gallu i anfon gwybodaeth i bleidleiswyr yn rhad ac am ddim.
- Darllediadau ymgyrch refferendwm
- Defnydd heb dâl o rai ystafelloedd cyhoeddus penodol
- Grant oddi wrthyn ni.

Mae rhaid inni sicrhau bod grwpiau ymgyrchu arweiniol yn cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros bob canlyniad yn iawn.

Oherwydd hyn, os hoffech chi ymgeisio i gael eich dynodi, efallai hoffech chi ystyried ffurfio corff fantell â grwpiau eraill sy'n ymgyrchu dros y canlyniad rydych chi'n ei gefnogi.

Mae rhaid i'r gorff fantell gael ei chofrestru gyda ni fel ymgyrchwr os yw'ch cais i gael ei ystyried.

I gael rhagor o wybodaeth ar ymgyrchwyr arweiniol gweler:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefniadau – y broses o ddynodi

8

# Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 0207 271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 255 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau - ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk